# Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth

## Ffurflen Adnewyddu Trwyddedu Ychwanegol a Gorfodol

## Rhan 2 Deddf Tai 2004

**Mae trwyddedu tai amlfeddiannaeth yn sicrhau bod mathau penodol o eiddo ar rent yn bodloni safonau angenrheidiol er mwyn gwneud yn siwr bod tŷ yn ddiogel ar gyfer y preswyliwr yn ogystal â sicrhau bod y landlord yn addas, yn gymwys ac mai ef yw'r un mwyaf priodol i'w reoli. Rhaid bod rhagofalon tân ac amwynederau cegin ac ystafelloedd ymolchi digonol ar gyfer nifer y preswylwyr yn y tai. Bydd y Cyngor yn cymryd unrhyw euogfarnau troseddol a all fod gan y landlord i ystyriaeth a gall wrthod rhoi trwydded os ystyrir nad yw'r landlord yn berson 'addas a phriodol'**

Atebwch bob cwestiwn yn ofalus a llofnodwch y datganiad ar waelod y ffurflen. Os oes gennych fwy nag un eiddo amlfeddiannaeth bydd angen i chi lenwi ffurflen gais ar wahân ar gyfer pob eiddo. Os gwelwch nad oes digon o le i ymateb i gwestiwn, defnyddiwch ddalen barhad, ei hatodi i'r cais a nodwch arni rif yr adran y mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi.

Llenwch y ffurflen yn ofalus ac yn glir mewn inc du neu las a chyfeiriwch at y canllawiau i'ch cynorthwyo wrth ei llenwi. Mae'r rhestr wirio a ganlyn yn rhoi manylion y dogfennau y mae'n **rhaid** eu darparu gyda'r ffurflen gais wedi'i llenwi (Ticiwch).

- ☐ **Y ffi briodol (gweler isod am fanylion)**
- ☐ **Un llun maint pasbort (35mm x 45mm yn unig)**
- ☐ **Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol BS7671: Rhan P**
- ☐ **Ar gyfer y Deiliad Trwydded Arfaethedig**
- ☐ **1 copi clir o brawf adnabod + 1 copi clir o brawfcyfeiriad**
- ☐ **Prawf PAT ar gyfer offer trydanol cludadwy**
- ☐ **Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC)**
- ☐ **Copi clir o'r cytundeb Tenantiaeth**
- ☐ **Asesiad Risg Diogelwch Tân**
- ☐ **Tystysgrif archwilio Goleuadau Argyfwng a chynnal profion cyfnodol**
- ☐ **Adroddiad Gosod/Archwilio a gwasanaethu larymautân**

**Rhowch ffotograff o ddeiliad arfaethedig y drwydded yma**

**Rhaid darparu'r dogfennau canlynol os ydynt ar gael ac yn berthnasol:-**

- ☐ **Tystysgrif Cwblhau dan y Rheoliadau Adeiladu**
- ☐ **Caniatâd Cynllunio (ar gyfer addasu neu newid defnydd i HMO)**
- ☐ **Ffurflen CD/12 OFTEC – Gwiriad Diogelwch Olew i Landlordiaid**
- ☐ **Cofnod Diogelwch Nwy i Landlordiaid a/neu**

| At ddefnydd y Swyddfa yn unig | Swm y ffi | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| | | |

## 1. FFURFLEN ADNEWYDDU AR GYFER TRWYDDEDU TAI AMLFEDDIANNAETH (RHAN 2 DEDDF TAI 2004)

1a. Cyfeiriad yr eiddo i'w drwyddedu

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

Cod Post ________________

1b. Y math o gais Adnewyddu ☐

Cyfeirnod y cais neu'r drwydded flaenorol ________________________

1c. Y math o drwydded Gorfodol ☐

Ychwanegol ☐ 257 ☐

Dyddiad Cychwyn y Drwydded: ____________________

## 2. MANYLION YR YMGEISYDD (Yr un sy'n llenwi'r ffurflen hon)

2a. Cyfenw ______________________Enw(au) ___________________________

Cyfeiriad ______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________

Cod Post ____________________

Dyddiad Geni ______________________Man Geni ______________________

Manylion cyswllt

Rhif Ffôn Cartref ___________________ Rhif Ffôn Gwaith ______________________

Rhif Ffôn Symudol ____________________

Cyfeiriad E-bost ______________________________________________

2b. Beth yw eich perthynas â deiliad arfaethedig y drwydded? (Ticiwch y blwch priodol).

Ffrind ☐ Perthynas ☐ Cyfreithiwr ☐
Asiant ☐ Arall ☐ (rhowch fanylion isod)

______________________________________________

______________________________________________

## 3. MANYLION DEILIAD ARFAETHEDIG Y DRWYDDED (yr unigolyn, busnes neu sefydliad y bydd ei enw ar y drwydded)

3a. Statws Deiliad Arfaethedig y Drwydded.

Unig fasnachwr ☐ Cwmni ☐ Partneriaeth ☐

Elusen neu Ymddiriedolaeth ☐ Arall ☐(Rhowch fanylion)

______________________________________________

3b. Os yw'n gwmni, partneriaeth, elusen neu Ymddiriedolaeth, rhowch fanylion:
Enw'r busnes/sefydliad (os yw wedi'i gofrestru, defnyddiwch yr enw cofrestredig)

______________________________________________

______________________________________________

Rhif Cofrestru (os yw'n berthnasol) ______________________________

3c. Enw deiliad arfaethedig y drwydded (os yw'n gwmni, rhowch enw llawn y cwmni)

______________________________________________

Cyfeiriad

______________________________________________

______________________________________________

______________________________________________Cod Post _______________

Dyddiad Geni _____________________Man Geni _________________________________

Manylion cyswllt Deiliad Arfaethedig y Drwydded:

Rhif Ffôn Cartref ___________________________Rhif Ffôn Gwaith _____________________

Rhif Ffôn Symudol ___________________________

Cyfeiriad E-bost ________________________________________________________________

3d. Rhowch fanylion ysgrifennydd y cwmni a phob un o'r cyfarwyddwyr (os taw cwmni yw deiliad arfaethedig y drwydded), pob partner (os yw'n bartneriaeth), a phob ymddiriedolwr (os yw'n elusen neu'n ymddiriedolaeth).

Enw a chyfeiriad Ysgrifennydd y Cwmni (os yw'n gymwys)

_______________________________________________________________________________

_______________________________________________________________________________

Cod Post _________________________________

Enwau a chyfeiriadau a dyddiadau geni Cyfarwyddwyr/Parneriaid/Ymddiriedolwyr (fel y bônt yn gymwys)

**1.** ________________________________________________________________________

_______________________________________________________________________________

**2.** ________________________________________________________________________

_______________________________________________________________________________

**3.** ________________________________________________________________________

_______________________________________________________________________________

## 4.RHEOLWR ARFAETHEDIG YR EIDDO I'W DRWYDDEDU

4a Ai deiliad arfaethedig y drwydded fydd rheolwr yr eiddo? Ie/Na

Os 'na', rhowch fanylion y rheolwr

Cyfenw _________________________Enw(au) Cyntaf ______________________________

Enw'r Busnes _______________________________________________________________

Cyfeiriad (os yw'n sefydliad, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

________________________________________Cod Post ________________________

Dyddiad Geni ______________________Man Geni ___________________________

Manylion cyswllt

Rhif Ffôn Cartref ___________________Rhif Ffôn Gwaith _________________________

Rhif Ffôn Symudol ______________________

Cyfeiriad E-bost____________________________________________________________

## 5. PERCHENOGAETH A RHEOLAETH AR YR EIDDO I'W DRWYDDEDU

5a. Ai deiliad arfaethedig y drwydded yw perchennog yr eiddo? Ie/Na

5b. A oes gan ddeiliad arfaethedig y drwydded reolaeth dros yr eiddo? Oes/Nac oes
(h.y. â chanddo hawl gyfreithiol i gael incwm rhent yr eiddo).

**5c. A oes gan ddeiliad arfaethedig yr eiddo'r pŵer angenrheidiol i reoli'r eiddo? Gan gynnwys:**

- Gosod i Denantiaid a'u troi allan Oes/Nac oes
- Mynediad i bob rhan o'r eiddo Oes/Nac oes
- Awdurdodi unrhyw wariant angenrheidiol Oes/Nac oes

5d. A oes gan rywun arall fuddiant cyfreithiol yn yr eiddo Oes/Nac oes
(e.e. fel rhydd-ddeiliad, lesddeiliad, darparwr morgais)?
Os oes, rhowch fanylion yn Adran 5e.

**5e. Rhowch fanylion perchennog/perchenogion yr eiddo (gan gynnwys eich darparwr morgais), unrhyw un arall â chanddo fuddiant cyfreithiol yn yr eiddo a/neu unrhyw un a gytunodd i fod yn rhwym wrth amodau'r drwydded (petai'n cael ei rhoi). Parhewch ar ddalen ar wahân os oes angen.**

1. Buddiant yn yr eiddo

________________________________________________________________

Cyfenw ________________________ Enw(au) Cyntaf ______________________

Cyfeiriad (os yw'n sefydliad, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

______________________________________ Cod Post __________________

Dyddiad Geni _____________________ Man Geni ______________________

2. Buddiant yn yr eiddo

________________________________________________________________

Cyfenw ________________________ Enw(au) Cyntaf ______________________

Cyfeiriad (os yw'n sefydliad, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

______________________________________ Cod Post __________________

Dyddiad Geni _____________________ Man Geni ______________________

3. Buddiant yn yr eiddo

________________________________________________________________

Cyfenw ________________________ Enw(au) Cyntaf ______________________

Cyfeiriad (os yw'n sefydliad, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

________________________________________________________________

________________________________________________________________

________________________________________________________________

______________________________________ Cod Post __________________

Dyddiad Geni _____________________ Man Geni ______________________

4. Buddiant yn yr eiddo

______________________________________________________________

Cyfenw ___________________________ Enw(au) Cyntaf _________________________

Cyfeiriad (os yw'n sefydliad, rhowch y swyddfa gofrestredig neu gyfeiriad swyddogol arall)

______________________________________________________________

______________________________________________________________

______________________________________________________________

______________________________________________ Cod Post ___________________

Dyddiad Geni ________________________ Man Geni __________________________

## DATGANIAD ADNEWYDDU

Gwiriwch eich ffurflen gais wreiddiol gan roi gwybod am unrhyw newidiadau i'r manylion a gedwir gan yr Awdurdod Trwyddedu Lleol isod. Dim ond os na fu newidiadau yn yr amgylchiadau i'r Drwydded bresennol y gellir defnyddio'r ffurflen hon.

Lle bo newidiadau, rhaid rhoi'r manylion yn llawn ar ffurflen gais am drwydded lawn.

Noder fod yn rhaid llofnodi a dyddio'r ffurflen 'Datganiadau' ar dudalen 12 yn ogystal.

Rwyf/Rydym yn cadarnhau fod y manylion sy'n gysylltiedig â'r cwestiynau a ganlyn yn parhau yr un fath â'r hyn a nodwyd ar gyfer Trwydded Cyfeirnod ________________________

| | | |
|---|---|---|
| Q6. | PERSON ADDAS A PHRIODOL | Ydyn/Nac ydyn |
| Q7. | MANYLION YR EIDDO I'W DRWYDDEDU | Ydyn/Nac ydyn |
| Q8. | GWYBODAETH AM DDEILIADAETH/TENANTIAETH | Ydyn/Nac ydyn |
| Q9. | MANYLION LLETY | Ydyn/Nac ydyn |
| Q10. | EFFEITHLONRWYDD GWRESOGI AC YNNI | Ydyn/Nac ydyn |
| Q11. | NWY A THRYDAN | Ydyn/Nac ydyn |
| Q12. | DIOGELWCH DODREFN | Ydyn/Nac ydyn |
| Q13. | RHENTU DOETH CYMRU (RENT SMART WALES) | Ydyn/Nac ydyn |
| Q14. | RHEOLI'R EIDDO I'W DRWYDDEDU | Ydyn/Nac ydyn |

Q15. EIDDO ARALL TRWYDDEDADWY DAN DDEDDF TAI 2004 Ydyn/Nac ydyn

## HYSBYSU POBL YNGHYLCH Y CAIS AM DRWYDDED

Rhaid i chi hysbysu pobl benodol yn ysgrifenedig eich bod wedi gwneud cais am Drwydded ar gyfer Tŷ Amlfeddiannaeth o dan Rhan 2 Deddf Tai 2004 Mae'r rhain yn cynnwys:

- Unrhyw un sy'n codi morgais ar yr eiddo
- Unrhyw berchennog ar yr eiddo, os nad chi ydyw
- Unrhyw un arall sy'n denant neu'n lesddeiliad hirdymor ar yr eiddo neu unrhyw ran ohono ar wahân i denant statudol neu denant arall y mae ei les neu denantiaeth am gyfnod sy'n llai na thair blynedd (gan gynnwys tenantiaeth gyfnodol).
- Deiliad arfaethedig y drwydded, os nad chi ydyw
- Yr asiant rheoli arfaethedig, os nad chi ydyw
- Unrhyw un sydd wedi cytuno i fod yn rhwym wrth unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r drwydded, petai'n cael ei rhoi

Rhaid i chi hysbysu pob un o'r rhain yn ysgrifenedig eich bod yn gwneud cais am drwydded ar gyfer Tŷ Amlfeddiannaeth a chynnwys y wybodaeth a ganlyn:

- Eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, cyfeiriad e-bost (os oes gennych un), rhif ffacs (os oes gennych un)
- Manylion cyswllt ymgeisydd/deiliad arfaethedig y drwydded
- Cyfeiriad y Tŷ Amlfeddiannaeth
- Enw a chyfeiriad yr Awdurdod Tai Lleol y caiff y cais ei gyflwyno iddo
- Y dyddiad y caiff y cais ei gyflwyno

Neu gallwch anfon neu roi copi o'r ffurflen gais yn llawn iddynt.

**Llenwch y tabl isod gan roi manylion y bobl/partïon perthnasol rydych wedi eu hysbysu ynghylch y cais am drwydded, a llofnodwch y datganiad ar dudalen 12.**

| Enw | Cyfeiriad | Buddiant y person yn yr eiddo neu'r cais | Dyddiad y gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## DATGANIAD

Rwyf/Rydym yn deall y gall y Cyngor fod angen cynnal ymchwiliadau i asesu p'un ai a wyf/ydym yn berson(au) "addas a phriodol" i ddibenion Rhan 2 Deddf Tai 2004. Rwyf felly'n awdurdodi'r Cyngor i gynnal ymholiadau o'r fath a rhannu gwybodaeth fel y gwêl yn briodol. Gall ymholiadau o'r fath gynnwys gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol, cysylltu â'r Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Awdurdodau Lleol eraill.

Rwyf/Rydym yn datgan fod unrhyw ddyfeisiau nwy a thrydanol a ddarperir at ddefnydd y tenantiaid mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth ddiogelwch berthnasol.

Rwyf/Rydym yn datgan fod unrhyw ddodrefn a ddarperir at ddefnydd y tenantiaid yn yr eiddo mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth ddiogelwch berthnasol.

Rwyf/Rydym yn datgan fod y synwyryddion/larymau mwg a gwres a osodwyd yn y tŷ fel y'u disgrifir ar y ffurflen hon mewn cyflwr da, yn ddiogel i'w defnyddio ac yn cydymffurfio â'r holl wybodaeth ddiogelwch berthnasol.

Rwyf/Rydym yn deall y byddaf/byddwn yn cyflawni trosedd os byddaf/byddwn yn rhoi gwybodaeth i'r awdurdod tai lleol mewn perthynas ag unrhyw un o'u swyddogaethau o dan Rhannau 1 i 4 o Ddeddf Tai 2004 sy'n ffug neu'n gamarweiniol, yr wyf/ydym yn gwybod ei bod yn ffug neu'n gamarweiniol neu os wyf/ydym yn ddi-hid ynghylch a yw'n ffug neu'n gamarweiniol.

Rwyf/Rydym yn datgan fy mod/ein bod wedi hysbysu'r bobl a restrir ar y tabl ar dudalen 5 ynghylch y cais hwn ac mai'r rhain yw'r unig rai sy'n hysbys i mi/ni y mae angen rhoi gwybod iddynt fy mod/ein bod wedi cyflwyno'r cais hwn.

Rwyf/Rydym yn datgan bod digon o arian ar gael i gynnal yr eiddo er sicrhau iechyd a diogelwch y tenantiaid ac i gyflawni'r holl rwymedigaethau statudol eraill.

**Rwyf/Rydym yn datgan fod y tŷ y gwneir cais am drwydded yn ei gylch o dan Rhan 2 Deddf Tai 2004 yn amodol ar drwydded dan y Rhan honno ar adeg cyflwyno'r cais hwn. Rwyf/Rydym yn datgan ymhellach, hyd y gwn/gwyddom, nad yw'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r awdurdod cyn hyn wedi newid ers i**

**Drwydded (Cyfeirnod) __________________ gael ei rhoi.**

## Ymgeisydd

**Enw Llawn** ________________________________ **Swydd** ____________________

**Llofnod** ________________________________ **Dyddiad** ______________________

## Deiliad Arfaethedig y Drwydded

**Enw Llawn** ________________________________ **Swydd** ____________________

**Llofnod** ________________________________ **Dyddiad** ______________________

## Rheolwr Arfaethedig

**Enw Llawn** ________________________________ **Swydd** ____________________

**Llofnod** ________________________________ **Dyddiad** ______________________

| HYSBYSIAD YNGHYLCH CAIS AM DRWYDDED YCHWANEGOL/GORFODOL<br>Rheoliadau Ceisiadau Trwyddedu (Tai Amlfeddiannaeth a Thai Eraill), Safonau, Cyhoeddi mewn perthynas â Dynodiadau a Chadw Cofrestrau 2006 | |
|---|---|
| Mae'r rheoliadau uchod yn ei gwneud yn ofynnol i mi eich hysbysu bod cais am drwydded wedi'i gyflwyno o dan Rhan II Deddf Tai 2004, neu a fydd yn cael ei gyflwyno:<br><br>Eiddo i'w drwyddedu ________________________________________<br><br>____________________________________________________ | |
| **Deiliad Arfaethedig y Drwydded** | **Enw**<br><br>**Cyfeiriad**<br><br><br>**Rhif ffôn**<br>**E-bost** |
| **Yr un sy'n llenwi'r ffurflen gais (os yw'n wahanol i ddeiliad arfaethedig y drwydded).** | **Enw**<br><br>**Cyfeiriad**<br><br><br>**Rhif Ffôn**<br>**E-bost** |
| **Y Rheolwr Arfaethedig** | **Enw**<br><br>**Cyfeiriad**<br><br><br>**Rhif Ffôn**<br>**E-bost** |
| **Yr Awdurdod Tai Lleol y cyflwynwyd y cais iddo:** | **Trwyddedu Tai Amlfeddiannaeth, Lles y Gymuned**<br>**Cyngor Sir Ceredigion**<br>**Canolfan Rheidol**<br>**Aberystwyth**<br>**Ceredigion**<br>**SY23 3UE** |
| **Dyddiad Cyflwyno'r Cais Tai Amlfeddiannaeth** | |
| **Llofnod** | |
| **Dyddiad** | |

## CANLLAWIAU

**Mae "Cais i Adnewyddu" yn golygu cais am drwydded dan adran 63 Deddf Tai 2004 lle bo'r drwydded y gwneir cais amdani, ar adeg cyflwyno'r cais, eisoes gan yr ymgeisydd ac yn weithredol o ran tai amlfeddiannaeth.**

### Manylion yr ymgeisydd

Os taw chi sy'n llenwi'r ffurflen gais hon, yna chi yw'r 'ymgeisydd'. Fel yr ymgeisydd, disgwylir i chi lenwi pob rhan o'r ffurflen gais a llofnodi'r datganiad ar ddiwedd y ffurflen, gan gadarnhau bod y wybodaeth a ddarperir gennych yn gywir hyd eithaf eich gwybodaeth.

'Deiliad arfaethedig y drwydded' yw'r un y bydd ei enw ar y drwydded (pe byddai'n cael ei rhoi). Rhaid i ddeiliad arfaethedig y drwydded fod yr un mwyaf priodol i ddal y drwydded ar gyfer yr eiddo, sef yr un sy'n debygol o gael y rhent am yr eiddo.

Disgwylir i chi, fel yr ymgeisydd, ddarparu:

- Eich enw;
- Eich cyfeiriad ar gyfer gohebu;
- Eich manylion cyswllt; a
- Datgan eich perthynas â deiliad arfaethedig y drwydded a'ch buddiant yn yr eiddo trwyddedadwy.

Mae eich buddiant yn yr eiddo trwyddedadwy yn golygu eich cyswllt neu eich ymwneud gyda'r eiddo trwyddedadwy sydd, fel rheol, o natur cyfreithiol megis fel rhydd-ddeiliad, lesddeiliad, asiant rheoli.

Fel yr ymgeisydd, rhaid i chi ddarparu manylion deiliad arfaethedig y drwydded fel a ganlyn:

- Y math o ddeiliad arfaethedig y drwydded ydyw;
- Enw;
- Cyfeiriad ar gyfer gohebu;
- Manylion cyswllt.

Os yw deiliad arfaethedig y drwydded yn gwmni, rhaid i chi nodi cyfeiriad y swyddfa gofrestredig ac enw ysgrifennydd y cwmni yn ogystal â chyfarwyddwyr y cwmni.

Os yw deiliad arfaethedig y drwydded yn bartneriaeth neu'n ymddiriedolaeth, rhaid i chi nodi enwau'r holl bartneriaid ac ymddiriedolwyr.

### Datganiadau mewn perthynas ag Adnewyddu

Cwestiynau 3 i 15 - datganiad na fu unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau o ran y

Drwydded gyfredol.

**Lle bo unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau, dylid cyflwyno cais gan ddefnyddio ffurflen gais lawn Tai Amlfeddiannaeth.**

## Gosodiadau Nwy

**Rhaid** i chi gyflenwi copi o'r dystysgrif/tystysgrifau diogelwch nwy sy'n cynnwys pob dyfais nwy ar yr eiddo gyda'r ffurflen gais hon. (Mae gofyn i chi sicrhau bod peiriannydd cofrestredig yn archwilio pob dyfais yn flynyddol).

## Gosodiadau Trydanol

**Rhaid** i chi gyflenwi copi o adroddiad prawf trydanol boddhaol a chyfredol ar gyfer yr eiddo, wedi'i lenwi gan beiriannydd trydanol, gyda'r ffurflen gais hon. Nid yw tystysgrifau sy'n nodi diffygion cod 1 neu god 2 yn cael eu hystyried yn foddhaol.

## Dodrefn

Mae **Rheoliadau Diwygio Dodrefn (Diogelwch Tân) 1993** yn gosod lefelau gwrthsefyll tân ar gyfer dodrefn domestig wedi'u clustogi, llenni a deunyddiau a chynnyrch arall sydd wedi'i glustogi. Rhaid cael deunydd llenwi sy'n gallu gwrthsefyll tân ar ddodrefn wedi'u clustogi, rhaid iddo basio prawf gwrthsefyll sigaréts a rhaid i orchudd parhaol basio prawf gwrthsefyll matsys. Bydd disgwyl i landlordiaid sy'n rhoi eiddo preswyl ar osod sicrhau bod unrhyw lenni a deunyddiau yn cydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

Mae '**Dodrefn wedi'u clustogi**' sy'n cael eu hymgorffori yn y rheoliad uchod yn cynnwys gwelyau, pennau gwelyau, matresi, gwelyau soffa, dodrefn plant/babanod, dodrefn gardd y gellir eu defnyddio y tu mewn, dodrefn mewn carafannau newydd, clustogau gwasgaru, clustogau ar gadeiriau a gobenyddion, gorchuddion rhydd ac o ffabrigau ymestyn ar gyfer dodrefn. Dylech chwilio am ddodrefn ag arnynt labeli'n nodi eu bod yn bodloni gofynion y rheoliadau.

## Rhentu Doeth Cymru

**Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i bob landlord gofrestru, ac i asiantaethau a landlordiaid sy'n hunanreoli gael trwydded drwy Rhentu Doeth Cymru.**

Mae'r gyfraith hon yn gymwys i bob landlord ac asiantaeth eiddo preswyl preifat yng Nghymru. Os ydych chi'n berchen ar eiddo, yn ei roi ar rent, yn ei reoli a/neu'n byw mewn eiddo ar rent yna bydd y gyfraith hon yn effeithio arnoch chi.

Mae'r cyfnod cofrestru'n para am 5 mlynedd ac yna bydd angen ei adnewyddu. Yn ystod y cyfnod cofrestru, mae landlordiaid dan ymrwymiad cyfreithiol i gadw'r wybodaeth a ddarparwyd ganddynt yn gyfredol e.e. os bydd y cyfeiriad gohebu'n newid neu os byddant yn prynu neu'n gwerthu eiddo ar rent yng Nghymru.

O 23 Tachwedd 2016, gall unrhyw un nad yw wedi cofrestru neu nad yw'n

cydymffurfio â'r gyfraith, ac sy'n cael ei ganfod yn euog o'r drosedd, wynebu cosb benodedig o £150 neu, os eir ag ef i'r llys, gall gael dirwy o hyd at £1,000.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **rentsmart.gov.wales** neu drwy ffonio **03000 133344**

## Asesiad Risgiau Tân

Os yw Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 yn berthnasol i'r eiddo, bydd gofyn i chi gyflwyno copi o Asesiad Risg Diogelwch Tân yr eiddo. Gallai hyn gynnwys fflatiau a fflatiau un ystafell pwrpasol, a llety pwrpasol i fyfyrwyr (gan gynnwys pan fydd aneddiadau unigol yn y bloc fflatiau yn eiddo i landlordiaid gwahanol). Mae'n bosibl y bydd gofyn i chi gyflwyno, yn ogystal, Asesiad Risg Diogelwch Tân os ystyrir ei fod yn briodol ar ôl i swyddog ymweld â'ch eiddo a chynnal archwiliad trwyddedu llawn arno.
Cynlluniwyd '**system goleuadau mewn argyfwng**' i oleuo'n awtomatig y ffordd o ddianc pan fydd y cyflenwad goleuadau artiffisial arferol wedi methu.

## Hysbysu Pobl Berthnasol

Rhaid i chi lenwi'r tabl ar dudalen 5 a defnyddio'r gofod a ddarperir i restru enwau, cyfeiriadau a disgrifiadau (e.e. lesddeiliad, y sawl sy'n codi morgais ac ati) o bob un y mae angen iddo wybod bod cais am drwydded tŷ amlfeddiannaeth wedi'i gyflwyno.
Y rhai y mae angen arnynt wybod yw:

• Unrhyw berchennog ar yr eiddo y mae'r cais yn berthnasol iddo (os nad chi ydyw) h.y. y rhydd-ddeiliad ac unrhyw brif leswyr sy'n hysbys i chi.

• Unrhyw ddarparwr morgais ar yr eiddo i'w drwyddedu.

• Unrhyw un arall sy'n denant neu'n lesddeiliad hirdymor ar yr eiddo neu unrhyw ran ohono (gan gynnwys unrhyw fflat) sy'n hysbys i chi ar wahân i denant statudol neu denant arall y mae ei les neu denantiaeth am gyfnod sy'n llai na 3 blynedd (gan gynnwys tenantiaeth gyfnodol).

• Deiliad arfaethedig y drwydded (os nad chi ydyw).

• Yr asiant rheoli arfaethedig (os nad chi ydyw).

• Unrhyw un a gytunodd i fod yn rhwym wrth unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â thrwydded, pe byddai'n cael ei rhoi.

Os oes angen mwy o le arnoch i lenwi Rhan 17, parhewch ar ddalen ychwanegol o bapur gan sicrhau eich bod yn rhifo'r tudalennau'n glir ac yn ei hatodi'n saff i'r ffurflen gais.

## Rhestr Wirio

**Rhaid i chi sicrhau eich bod yn cyflwyno'r holl ddogfennau angenrheidiol a restrir yn rhan gyntaf y rhestr wirio sydd ar flaen y ffurflen gais hon gyda'r ffurflen gais**

**orffenedig.  Bydd methiant i gyflwyno'r dogfennau hyn gyda'r ffurflen gais orffenedig yn golygu bod y ffurflen gais yn anghyflawn, ac ni chaiff ei phrosesu.**

**Os hoffech ragor o wybodaeth am drwyddedu tai amlfeddiannaeth yng Ngheredigion, cysylltwch â Gwasanaeth Lles y Gymuned yn y cyfeiriad uchod neu anfonwch e-bost atom ar housing@ceredigion.gov.uk <mailto:housing@ceredigion.gov.uk> neu trowch i'n gwefan ar www.ceredigion.gov.uk <http://www.ceredigion.gov.uk>**